

Peredur Owen Griffiths AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid  
Senedd Cymru  
Tŷ Hywel  
Bae Caerdydd  
CF99 1SN

19 Hydref 2021

Annwyl Peredur

Yn dilyn ein hymddangosiad gerbron eich Pwyllgor ar 8 Hydref, rwy'n ysgrifennu atoch er mwyn rhoi rhagor o wybodaeth i chi a fydd yn ategu'r atebion a roddwyd gennym yn ystod y cyfarfod. Mae'r wybodaeth o dan sylw wedi'i nodi yn yr atodiad.

Hoffem ddiolch i'r Pwyllgor am ei waith craffu. Mae'r Comisiwn bob amser yn ceisio gweithredu mewn ffordd agored, dryloyw a chlr. Felly, os oes unrhyw beth arall y gallwn ei roi ichi i gynorthwyo trafodaethau'r Pwyllgor, mae croeso ichi roi gwybod imi.

Yn gywir



Ken Skates

copi at Gomisiynwyr y Senedd, Manon Antoniazzi, Nia Morgan

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English



**Senedd Cymru**  
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

✉ Sulafa.Thomas@senedd.cymru  
☎ 0300 200 6227

**Welsh Parliament**  
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

✉ Sulafa.Thomas@senedd.wales  
☎ 0300 200 6227

## **Comisiwn y Senedd: Gwybodaeth ychwanegol yn dilyn ein hymddangosiad gerbron y Pwyllgor Cyllid ar 8 Hydref 2021**

### ***Cynlluniau Comisiwn y Senedd i estyn allan i garfannau nad ydynt fel arfer yn ymgysylltu â'r Senedd.***

Ymgysylltu â'r rhai nad ydynt fel arfer yn cymryd diddordeb yn ein gwaith yw un o brif flaenoriaethau ein timau cyfathrebu ac ymgysylltu. Yn ystod y pandemig, bu'n rhaid i ni symud llawer o'n gwaith ymgysylltu ar-lein a throi at gyfarfodydd a sesiynau addysg rhithwir.

Mae nifer y bobl yn cymryd rhan ym mhob sesiwn ymgysylltu wedi cynyddu o 34 y sesiwn ar gyfartaledd cyn y pandemig, i 72 y sesiwn o fis Ebrill 2021. Wrth inni ddychwelyd fwyfwy at ymgysylltu wyneb yn wyneb, byddwn hefyd yn sicrhau ein bod yn cynnal ansawdd y gwaith ymgysylltu rhithwir, sydd eisoes wedi cyrraedd mwy o bobl na fyddai â diddordeb yn ein gwaith fel arfer.

Yn fuan, byddwn yn cynnal ein hail etholiad ar gyfer Senedd Ieuenctid Cymru, ym mis Tachwedd 2021, lle bydd 285 o bobl ifanc yn sefyll yn yr etholiad. Bydd y rhai sy'n cael eu hethol yn gweithio gyda phobl ifanc eraill ledled Cymru i drin a thrafod materion sy'n bwysig iddynt.

Rydym yn gwybod bod y cyfryngau cymdeithasol yn cynnig cyfleoedd gwych i estyn allan i bleidleiswyr iau, yn ogystal â rhai sy'n dangos llai o ddiddordeb, ac rydym wedi cryfhau ein timau i wella ein gwaith yn y maes hwn. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gweld cynnydd o 20 y cant yn nifer y dilynwyr ar draws ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol a byddwn yn rhoi mwy o bwyslais ar adlewyrchu profiad byw y rhai sy'n rhoi tystiolaeth i bwyllgorau. Bydd y dull 'astudiaeth achos' hwn yn gwella ymgysylltiad yn ogystal â chynyddu diddordeb yn ein gwaith.

Byddwn hefyd yn buddsoddi mewn offer ymgysylltu ar-lein a fydd yn ei gwneud yn llawer haws i'r cyhoedd gymryd rhan mewn ymchwiliadau pwyllgor, ac rydym yn gweld hyn fel ffordd o sbarduno llawer o'n gwaith ymgysylltu a chyfathrebu. Mae swyddogion hefyd yn cymryd rhan weithredol o ran gweithio gyda phwyllgorau i chwilio am gyfleoedd i gynnwys pobl ifanc yn eu gwaith.

